

Tegwch a Chynhwysiant i Amgueddfeydd: adnoddau rhagarweiniol

Mae Tegwch a Chynhwysiant yn ganolog i gymdeithas deg ac i lwyddiant sefydliadau o ran bod yn berthnasol i gymunedau. Mae Isilda Almeida a Maurice Davies wedi bod yn gweithio gyda Museum Development UK (MDUK), gyda chymorth gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AiM), i greu rhaglen i gefnogi amgueddfeydd yng Nghymru a Lloegr i wella eu dealltwriaeth o Degwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant(EDI). Bydd y rhaglen Tegwch a Chynhwysiant i Amgueddfeydd (EIM), yn cynyddu gwybodaeth a sgiliau cyfranogwyr ym maes materion Tegwch a Chynhwysiant ac yn cefnogi sefydliadau i gael trafodaethau a gosod sylfeini er mwyn creu newid. I ddarganfod rhagor am EIM gweler <https://mduk.org.uk/equity-inclusion-programme/>

Rydym yn cydnabod bod sefydliadau ar bwyntiau gwahanol o ran ymgysylltu gydag arfer deg a chynhwysol, a gyda hyn mewn golwg rydym wedi dewis set o adnoddau rhagarweiniol mewn fformatau a chyfryngau gwahanol, sydd yn amlinellu cysyniadau allweddol, iaith gynhwysol ac enghreifftiau o arfer o sector y DU.

Mae'r adnoddau [Tegwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant](#) wedi cael eu dewis i gyflwyno sut y gall amgueddfeydd ymgysylltu gan ddechrau gyda'r naw 'nodwedd warchoddeddig' yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn gobeithio y bydd yr adnoddau hyn yn annog i staff, ymddiriedolwyr, cydweithwyr a gwirfoddolwyr amgueddfeydd archwilio i sut y gallent ymsefydlu arferion teg yn eu hamgueddfeydd, yn enwedig o safbwynt cynnwys arddangosfeydd a rhaglennu'r amgueddfeydd.

Rydym wedi creu Fframwaith Adlewyrchu i chi ei ddefnyddio wrth adolygu'r adnoddau. [Lawrlwythwch y Fframwaith Adlewyrchu.](#)

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth sydd yn diogelu yn erbyn gwahaniaethu, yn disgrifio ffurfiau o wahaniaethu a gydnabyddir, a sut y gallwch ddiogelu hawliau pobl. Roedd y Ddeddf hon yn cymryd lle'r Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi naw nodwedd warchoddeddig:

- oedran

- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- crefydd neu gred
- hîl
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Oedran

Mae amgueddfeydd wedi gwneud llawer dros y degawdau diwethaf i groesawu cynulleidfaoedd 'teuluol' ifanc. Erbyn hyn, wrth i amgueddfeydd weithio ar draws sectorau i gyfrannu at agendâu iechyd a llesiant, maent yn ymgysylltu yn fwy gyda phobl hŷn: pobl sydd wedi eu hynysu, sydd â phrofiad byw o dementia, ac sydd yn byw mewn cartrefi gofal. Nid yn unig ydy hyn yn rhan o raglenni allgymorth a chymunedol ond hefyd yng nghyd-destun casglu cyfoes a hanesion llafar, gan felly gwneud y casgliadau yn fwy cynhwysol a chynrychiadol o brofiadau byw o'r gorffennol a'r presennol.

- Rhestr Wirio Amgueddfeydd Oed-Gyfeillgar
https://www.culturehealthandwellbeing.org.uk/sites/default/files/2019-12/MDNW_Age-Friendly-Museums-checklist_Sept20192.pdf
- Poblogaeth y DU sy'n Heneiddio: Heriau a chyfleoedd i amgueddfeydd ac orielau <https://www.ageing.ox.ac.uk/download/173>

Anabledd

Mae bod yn hygyrch a chroesawgar i bobl â phrofiad byw o anableddau yn golygu ystyriaethau o ran gwagleoedd corfforol, [cyfathrebu hygyrch](#), [canllawiau hygyrchedd gwefannau](#), rhai profiadau o [niwroamrywiaeth](#) a llesiant emosiynol. Bydd amgueddfeydd sydd yn [gynrychiadol o weithlu](#) gyda galluoedd, ffyrdd o ddysgu a phrofiadau gwahanol o reidrwydd yn fwy teg ac amrywiol.

Mae cael sgysiaid a thrafodaethau yn un o'r ffyrdd allweddol o oresgyn rhwystrau ac mae [iaith](#) yn rhan arwyddocaol o hyn.

Mae'r materion hyn yn gyfarwydd i amgueddfeydd ond telir llai o sylw i sut y caiff pobl anabl eu cynrychioli mewn amgueddfeydd, felly rydym yn cynnig rhai enghreifftiau o ddehongli a rhaglennu da isod.

- Adlewyrchu ar amgueddfeydd a phenblwydd y Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn 25 <https://www.museumsassociation.org/museums-journal/opinion/2020/11/there-is-a-strong-feeling-among-disabled-people-that-we-have-been-losing-ground/>

- Mae Adran Astudiaethau Amgueddfeydd Prifysgol Caerlŷr wedi archwilio i ffyrdd o wella cynrychiolaeth o anabledd mewn amgueddfeydd. Mae trosolwg cryno o waith yr adran yma

<https://le.ac.uk/rcmg/reframing-difference-and-disability> Mae adnoddau o *Rethinking Disability Representation in Museums and Galleries*, gan gynnwys adroddiad y prosiect a naw astudiaeth achos ar gael yma
<https://le.ac.uk/rcmg/research-archive/rethinking-disability-representation>

- Mae *Curating for Change* yn archwilio i sut y gall pobl anabl ymwneud yn fwy ag amgueddfeydd fel cynulleidfaoedd a staff
<http://www.accentuateuk.org/news?item=1325> Mae'n cynnwys trafodaeth o'r manteision i bobl anabl o newidiadau mewn amgueddfeydd oherwydd Covid
- *Shifting Perspectives*: Agor amgueddfeydd ac orielau i bobl ddall a rhannol ddall <https://www.culturehealthandwellbeing.org.uk/sites/default/files/2019-08/rnib-shifting-perspectives-book-lo-res-20-04-2011.pdf>
- Mae'r podlediad hwn am oriel *Being Human* y Wellcome Collection yn cynnwys trafodaeth am weithio gyda a bod yn atebol i ymgynghorwyr anabl
<https://www.aam-us.org/2019/11/26/museopunks-episode-40-a-very-human-exhibition/>
- Mae'r fideo pum-munud hwn yn edrych ar fynediad personol i bobl anabl i arddangosfeydd celf <https://youtu.be/LZUR7lz0YIE>
- Mae'r weminar un awr hon yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol ar wella mynediad anabledd a chynrychiolaeth mewn amgueddfeydd
<https://www.youtube.com/watch?v=PDUVvkzgsbj0>
- Mae amgueddfeydd wedi bod yn rhan o'r agenda iechyd meddwl a llesiant ers amser hir cyn y pandemig. [Museums Joining the Mental Health Conversation - MuseumNext](#)

Ailbennu Rhywedd

Yn ôl [Cyfreithwyr LHDT](#), mae tua 1% o boblogaeth y DU â'r hunaniaeth rhywedd trawsryweddol neu anneuaid. Mae [iaith](#) yn ganolog i gael dealltwriaeth well o hunaniaethau rhywedd a chael trafodaethau cynhwysol. Mae archwilio i hunaniaeth ac ymberthyn yn elfen hanfodol o rôl amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth. Pwynt dechrau da yw i beidio byth â gwneud rhagdybiaethau o ran hunaniaeth rhywedd person (neu fel arall) drwy edrych arnynt yn unig. Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar y rhagenwau y mae pobl yn eu defnyddio ar gael yma
<https://sublimemarch.itch.io/pronouns-101-zine>

Dyma enghreifftiau o waith mewn amgueddfeydd:

- *The Museum of Transology* <https://www.museumoftransology.com/>, enillydd yr Activist Museum Award 2020/21
- *Event recording: Museums and the Transgender Tipping Point* <https://le.ac.uk/rcmg/research-archive/transgender-tipping-point>
- <https://www.nationaltrust.org.uk/sutton-house-and-breakers-yard/features/sutton-house-queered>
- [Museum of Transology Twitter feed](#)
- [Museum of Transology Instagram feed](#)

Beichiogrwydd a mamolaeth

Bydd cyflogwyr sydd yn darparu cymorth i staff adeg beichiogrwydd a mamolaeth yn fwy tebygol o gadw staff a chael boddhad uwch ymysg eu gweithwyr. Mae sicrwydd a thawelwch meddwl yn hanfodol. Ond nid yw hyn yn fater Adnoddau Dynol yn unig. Mae'n bwysig bod amgueddfeydd yn wagleoedd croesawgar i [bobl feichiog a rhieni newydd neu ofalwyr](#). Mae hyn yn golygu nid yn unig bod yn deulu-gyfeillgar ond hefyd darparu yn ôl anghenion y cynulleidfaoedd hyn megis cyfleusterau newid babanod, gwagleoedd bwydo tawel a chyfleoedd i rieni ryngweithio gyda rhieni a gofalwyr eraill mewn ardaloedd chwarae meddal a gwagleoedd a gweithgareddau eraill ble y gallent fwynhau chwarae diogel gyda'u babanod a'u plant.

Mae beichiogrwydd a bod yn rhiant yn ddigwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd ac wrth gwrs, yn rhan o'n hanes cymdeithasol, meddygol, economaidd a gwleidyddol. Dylent fod yn weladwy, dylent gael eu cynrychioli a'u harchwilio mewn casgliadau amgueddfeydd.

Rydym wedi dod o hyd i'r enghreifftiau canlynol:

- [Museum of pregnancy and families – International Council of Museums \(icom-cc2014.org\)](https://icom-cc2014.org/)
- [Pregnancy Corset | Staff Picks | Maidstone Museum](#)
- [Go See 'Portraying Pregnancy' at London's Foundling Museum — &SISTERS \(andsisters.com\)](https://andsisters.com/)
- [Renaissance childbirth - Victoria and Albert Museum \(vam.ac.uk\)](https://vam.ac.uk/)
- [Make Room for Baby - Museum of Science and Industry \(msichicago.org\)](https://msichicago.org/)

Hîl

[Lluniad cymdeithasol yw hîl](#), wedi'i ddiffinio a'i orfodi gan grŵp amlwg a chryf yn y gymdeithas a heb unrhyw sylfaen fiolegol na gwyddonol. Mae'r cysyniad artiffisial o hîl wedi bod yn sylfaen i ddamcaniaethau eraill â'r nod o gyfiawnhau'r ormes o bobl nad ydynt yn wyn. Mae creu'r naratif hwn o israddoldeb wedi digwydd, weithiau yn llai amlwg, mewn sefydliadau cymdeithasol a diwylliannol. Mae naratifau a rhagdybiaethau hiliol felly, yn anochel, yn sail i greu llawer o gasgliadau amgueddfeydd a sut y maent [wedi cael eu dehongli](#). Caiff hanes ei ysgrifennu gan yr enillwyr, ac yn Ewrop a'r Ymerodraeth Brydeinig, mae'r enillwyr wedi tueddu i fod yn ddynion gwyn, cyfoethog, corfforol-alluog. Mae galw i 'ddatwaddoli' amgueddfeydd i fynd i'r afael â'u hiliaeth ymhlyg (a rhywiaeth a galluaeth).

Nod canllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd, [Supporting Decolonisation in Museums](#), yw grymuso mwy o bobl i weithredu ac arwain newid wrth i amgueddfeydd fynd i'r afael â'r etifeddiaeth o wladychiaeth Brydeinig.

Mae [Adroddiad](#) dros dro yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol *Connections between Colonialism and Properties now in the Care of the National Trust Including Links with Historic Slavery* yn datgelu etifeddiaeth gudd yn aml, enillwyr hanes yn ein sefydliadau treftadaeth sydd i fod yn niwtral. Yn ogystal â mynegai daearyddol a drafodir yn aml ac sydd weithiau yn ddadleuol, o eiddo 'problematig' yr Ymerodraeth Brydeinig, mae gan yr adroddiad benodau byr defnyddiol ar nifer o agweddau o hanes gwladychol Prydain.

Sut ydym yn siarad am bwnc mor [anghyfforddus](#) ac emosiynol â hîl? Pa eiriau y dylem eu defnyddio? Nid yw hyn yn syml, gan fod iaith dderbyniol yn dueddol o symud dros amser ac amrywio rhwng llefydd a phobl. Mae BAME yn dechrau cael ei weld fel problematic gan ei fod yn rhoi ethnigrwyddau, hunaniaethau a daearyddiaethau gwahanol fel grŵp mewn un term cyffredinol. Mae llawer o drafodaethau ar y [derminoleg fwyaf priodol](#) i'w defnyddio a dylai amgueddfeydd ystyried y rhain nid yn unig wrth gyfathrebu yn allanol ond hefyd yn fewnol, gyda'u staff, gwirfoddolwyr, sefydliadau partner a rhanddeiliaid eraill. Gall unigolion ffafrio eu dewis eu hunain. Er enghraifft, efallai bod yn well ganddynt "bobl o ethnigrwyddau amrywiol" yn hytrach na "phobl groenliw" neu i'r gwrthwyneb.

Crefydd

Mae mynd i'r afael â chrefydd yn gymhleth. Mae materion i'w hystyried yn cynnwys beth sydd yn gysegredig ac i bwy, a chyd-destunau cymdeithasol a gwleidyddol. Cymerodd y Saeson ran yn rhyfeloedd y Groes cyntaf, gan groesawu ffoaduriaid Huguenot Ffrangeg ac Iddewig. Gwahanodd Lloegr ei hun i'r Eglwys Gatholig gan ddefnyddio crefydd fel offeryn o rym yn y broses o 'wareiddio' eraill i wladychu eu bywyd a'u tir, gan gynnwys rôl cenhadon, ffynhonnell llawer o eitemau mewn casgliadau amgueddfeydd. Mae'r berthynas rym anghyfartal rhwng casglwyr a'r cymunedau yn golygu fod galw yn awr am [ailwladoli](#). Yma mae llawer o wahanol grefyddau a safbwyntiau amrywiol o'r byd y tu hwnt i [Iddewiaeth](#), [Cristnogaeth](#), [Hindŵaeth](#), [Bwdhaeth](#) ac [Islamiaeth](#).

- Trosolwg cyflym o dueddiadau mewn amgueddfeydd ar gyflwyno crefyddau <https://www.mdpi.com/2077-1444/10/12/656/htm>
- Cyfweiliad am newid dulliau gweithredu amgueddfeydd o ran crefydd <https://glencairmuseum.org/newsletter/2017/3/27/religious-objects-in-museums-an-interview-with-crispin-paine>
- Grŵp Crefydd, Casgliadau a Threftadaeth (gan gynnwys rhestr ddarllen) <https://religioncollections.wordpress.com/>
- Recordiad fideo o'r drafodaeth *Museums, Religion, and the Work of Reconciliation and Remembrance* <https://www.jmberlin.de/en/discussion-program-museums-and-religion-between-commemoration-and-reparation>

Rhyw

Mae menywod wedi cael eu tangynrychioli yn sylweddol trwy gydol hanes ac mewn celf. Maent yn cael eu portreadu fel stereoteipiau – fel gofalwyr teuluol, magwyr, pobl sy'n gofalu am y cartref, "y rhyw wanach" ac mae eu cyflawniadau wedi cael eu tawelu mewn cymdeithasau patriarchaidd sydd yn hybu ac yn parhau grym gwrywaidd.

Mae menywod nad ydynt yn wyn, sydd yn anabl, trawsryweddol neu yn ddsbarth-gweithiol yn cael eu cynrychioli hyd yn oed yn llai mewn fersiynau amgueddfeydd o hanes.

Eto, gall iaith fod yn ddinistriol neu yn rywbeth sy'n grymuso. Nid ydym yn meddwl yn unig am iaith wreig-gasaol ond hefyd am iaith ryweddol nad yw'n cynnwys menywod. Enghreifftiau o hyn yn Saesneg yw *manned, chairman, manpower, manmade*. Ystyriwch hyn yn eich ffyrdd o gyfathrebu. Mae geiriau yn chwarae rôl bwysig mewn meddwl. Mae peidio â chynnwys menywod yn yr iaith rydym yn ei defnyddio i gyfathrebu ein syniadau yn dirymuso menywod a merched rhag gymryd rolau gweithredol a chadarnhaol yn y gymdeithas.

- Pwysigrwydd hanes menywod i amgueddfeydd <https://eastendwomensmuseum.org/why-women>
- *Museum Space Invaders: Feminists in museums and heritage, creating sector change* <https://mspaceinvaders.com/> gyda chanllaw eang i adnoddau Ffeministaidd <https://mspaceinvaders.com/reading/>
- *Improving the representation of female artists: Where are all the women?* <https://www.museumsassociation.org/museums-journal/features/2021/05/where-are-the-women/> Nodwch fod angen manylion mewngofnodi MA
- [*Interrogating women and domesticity. The Dusters project*](#)

- [National Women's History Museum \(womenshistory.org\)](http://womenshistory.org)
- [Women's History | Historic England](#)
- [Welsh women's history | National Museum Wales](#)

Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae dehongliad amgueddfeydd wedi cael ei gyflwyno yn draddodiadol o safbwynt heterorywiol, gan anwybyddu rhywioldebau eraill yn bennaf er gwaethaf y ffaith nad yw hyn yn gwbl gynrychiadol o hanes dynol. Mae amrywiaeth eang o amgueddfeydd yn awr yn ehangu eu cynrychiolaeth o rywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

Fel syniad o'r cyfleoedd, mae Taith Mis Hanes LHDTTC+ [Amgueddfa Manceinion](#) yn archwilio i sut y mae stereoteipiau wedi cael effaith ar ymchwil a dehongli hanes naturiol.

Dylai bod yn wir gynrychiadol o berthynasau a theuluoedd gwahanol fod yn gynhwysol o ffurfiau gwahanol o briodas a phartneriaethau sifil, yn eu polisïau staff ac yn naratifau eu gwrthrychau a'u safleoedd, fel y mae'r enghraifft hon o Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl yn dangos [Civil partnerships and marriages | National Museums Liverpool \(liverpoolmuseums.org.uk\)](#).

Fel gyda phob maes arall o arfer gynhwysol, mae'n bwysig ystyried y drafodaeth a'r [terminolegau](#) sydd yn perthyn i brofiadau cymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywedol, neu'n Cwestiynu (LHDTTC+).

Mwy o adnoddau:

- [LGBTQ+ History & Practice – Discover \(brightonmuseums.org.uk\)](http://brightonmuseums.org.uk)
- [Uncovering LGBTQ+ rural histories in archives – The MERL \(reading.ac.uk\)](http://reading.ac.uk)
- Adlewyrchu gan Amgueddfa Bodmin Keep ar yr heriau a'r cyfleoedd o gyflwyno bywydau a gwrthrychau LHDTTC+ <https://bodminkeep.org/where-is-our-lgbtq-history/>
- Canllaw i Adnoddau Hanes LHDTTC+ <https://historyatkingston.wordpress.com/lgbt-history-resources/>
- Trosolwg o ddehongliad arbrofol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol / Prifysgol Caerlŷr, gan gynnwys adroddiad ar ymatebion ymwelwyr <https://le.ac.uk/rcmg/research-archive/prejudice-and-pride> ac mae'r adroddiad ei hun *Prejudice and Pride: LGBTQ heritage and its contemporary implications* ar gael yma [https://leicester.figshare.com/articles/report/Prejudice and Pride LGBTQ heritage and its contemporary implications/10207328/1](https://leicester.figshare.com/articles/report/Prejudice_and_Pride_LGBTQ_heritage_and_its_contemporary_implications/10207328/1)

- Fideo: *How Museums Can Expand Narratives With LGBTQ+ Interpretation* <https://www.museumnext.com/article/museums-expand-narratives-with-lgbt-interpretation/> Nodwch os gwelwch yn dda nad oes unrhyw is-deitlau ar gael
- Fideo: *How To Queer Your Museum by Ancient House Thetford Teenage History Club* <https://lgbtplushistorymonth.co.uk/2020/02/how-to-queer-your-museum-by-ancient-house-teenage-history-club/>
- Podlediad *Queering Museums* <https://www.listennotes.com/podcasts/queering-museums-queering-museums-UO1RtAyv8EK/>
- Podlediad hanesion treftadaeth leol ac LHDTTC+ https://forartsake.co.uk/sean_curran/

Y tu hwnt i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Nid yw amrywiaeth a gwahaniaethu yn berthnasol yn unig i'r naw nodwedd warchoddedig unigryw. Mae pobl a'u profiadau mewn bywyd yn amrywiol a chymhleth, ac nid yw hunaniaethau yn syml. Mewn un unigolyn byddwn yn dod o hyd i gyfuniad o hunaniaethau gwahanol.

Ystyriwch fenywod: Bydd menyw hŷn wyn yn profi ffurfiau gwahanol o wahaniaethu i fenyw ddu ifanc neu fenyw drawsryweddol anabl. Rydym yn galw'r gorgyffwrdd hyn o hunaniaethau yn [groestoriadedd](#). Mae hyn yn cydnabod bod profiad byw pob unigolyn yn unigryw, yn werthfawr ac yn bwysig i'w barchu, gwrando arno a'i ystyried.

Mae ffactorau eraill sydd yn cyfrannu at allgau yn y gymdeithas, megis dosbarth, statws economaidd-gymdeithasol, pwysau corfforol, arddulliau dysgu, dewisiadau ymddygiadol a rhai profiadau o niwroamrywiaeth.

Cael eich Ysbrydoli: Gweithredu gan Amgueddfeydd

Wrth i sefydliadau sydd yn ceisio cyflenwi budd i'r cyhoedd, mae [dyletswydd](#) gan amgueddfeydd i hybu cyfiawnder cymdeithasol a thegwch. Gallai hyn olygu bod yn [blatfform ar gyfer dialog ac adlewyrchu, yn gatalydd ar gyfer newid neu yn fodel o'r newid yr hoffwn weld yn y gymdeithas](#) drwy gynghreiriaeth a [datwaddoli](#). Gellir archwilio i rai enghreifftiau isod:

- [Campaigning - People's History Museum: The national museum of democracy \(phm.org.uk\)](http://phm.org.uk)
- [The Activist Museum Award 2021-2022 | Research Centre for Museums and Galleries \(RCMG\) | University of Leicester](#)
- [Activism - Museums Association](#)